

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd 13 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma. [Rhan 1 o 2](#); [Rhan 2 o 2](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Ms. B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd Ms. S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Mrs. P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.G.J. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) a N. Moore Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau).

### 215 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

### 216 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd V.J. Bailey.

### 217 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

### 218 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### 219 CAU CYFRIFON 2020/21 (CYF) –

Roedd y cyfrifon wedi'u cwblhau ac roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor Craffu am sefyllfa ariannol dros dro y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn oedd bod costau wedi'u hadennill ar ôl trosglwyddiad net gwerth £695k o gronfeydd wrth gefn. Roedd targed arbedion refeniw o £83k wedi'i bennu ar gyfer 2020/21 a gyflawnwyd. Cafwyd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £14.662m.

Trafodwyd y pwysau parhaus o ran y gyllideb refeniw, yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdogaeth. Tynnwyd sylw at bwysau hefyd yn y Gwasanaethau Adeiladu; fodd bynnag, eglurwyd bod y rhain yn fwy byrdymor eu natur a'u bod o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r gostyngiad mewn gwaith cynnal a chadw adeiladau.

Roedd gan raglen gyfalaf y pwyllgor alldro o £7.635m yn llai na'r gyllideb, a bu trafodaeth ynghylch y prif amrywiannau. Cydnabuwyd y byddai swm mawr o'r cyllidebau hyn yn llithro i'r flwyddyn ariannol ganlynol, 2021/22.

Trafodwyd lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn ac esboniwyd bod y rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth ar gyfer pwysau yn yr ardal.

O ganlyniad i'r tanwariant cyfalaf yn 2020/21, roedd dyraniad o £4.632m wedi'i gymeradwyo trwy Bwerau Brys y Rheolwr Gyfarwyddwr, fel llithriant i 2021/22 ar gyfer y Pwyllgor hwn.

Holodd y Cynghorydd G. John am gyllid cyfalaf ynglŷn â chynllun atal llifogydd Trebefered, gan ddweud bod y cynllun hwn wedi'i gwblhau ers rhai blynyddoedd. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai fod yr arian hwn yn ymwneud â chadw contractau a dileu unrhyw waith arall. Cytunwyd y byddai rhagor o fanylion am y cynllun hwn yn cael eu hanfon trwy e-bost.

Yna penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r mesur ariannol a gymerwyd.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Ar ôl ystyried y sefyllfa ariannol dros dro ar gyfer 2020/21.

220 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL  
I 31 MAI 2021 (CYF) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor Craffu o'r cynnydd ynglŷn â gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai, 2021.

Cydnabuwyd ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, ond rhagwelir y gallai fod angen trosglwyddiad heb ei gynllunio gwerth £1.25m o'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer cyllideb y Gwasanaethau Cymdogaeth.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn heriol gyda'r pwysau parhaus i'r gwasanaeth yn weithredol ac yn ariannol oherwydd y pwysau cyllidebol sylfaenol yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff yn ogystal â phandemig COVID-19. Byddai hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd incwm a gollwyd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i ymdrin â rhai o'r materion.

Roedd targed effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn wedi'i bennu ar £162k, ond rhagwelwyd y byddai'n anodd i'r Gwasanaethau Cymdogaeth gyflawni'r arbedion hyn ar hyn o bryd. Roedd y gyllideb gyfalaf wedi'i gosod ar £23.439m ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y newidiadau diweddar a wnaed i'r rhaglen gyfalaf.

Wedi ystyried yr adroddiad, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – Bod y sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22 yn cael ei nodi.

### Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### 221 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2020/21 (RG) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod am gynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (1 Ebrill, 2020 i 31 Mawrth, 2021) tuag at gyflawni ei ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol (2020/21) (CCB) yn unol â'i Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol.

Bwriad y cyflwyniad atodedig oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd blwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Hyn cyn Adroddiad Blynyddol manylach 2020/21. Byddai adroddiad am hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2021 a'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021 yn unol â'r amserlen statudol.

Er gwaethaf yr heriau parhaus wrth ymateb i bandemig byd-eang Covid-19, roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'i Gynllun Cyflawni Blynyddol. Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Melyn cyffredinol ar gyfer y CCB yn Chwarter 4 (Ch4).

Priodolwyd statws perfformiad Melyn i bob un o'r pedwar Amcan Lles Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau digynsail yr oedd y Cyngor yn parhau i'w hwynebu.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 60% (141 o 234) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor, sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter a hynny o dan amgylchiadau heriol. Priodolwyd statws coch i 40% (93) o'r gweithgareddau cynlluniedig.

O'r 93 o gamau gweithredu a gafodd statws perfformiad Coch ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 91% (85) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a wnaed mewn ymateb i effaith y pandemig parhaus. Mewn perthynas â'r meysydd hyn, roedd gwaith bellach yn ailddechrau, lle y bo'n briodol, fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor. Roedd y cyflwyniad a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad perfformiad yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd o ran adfer ar

ôl y coronafeirws yn y Pwyllgor Craffu a byddai'n canolbwyntio ar dynnu sylw at faterion oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y diweddariad hwn am adfer ar ôl y coronafeirws bellach yn rhan o adroddiadau perfformiad chwarterol er mwyn sicrhau bod Aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith eu Pwyllgorau perthnasol. O'r safbwynt hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas ag adfer ar ôl y coronafeirws.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, priodolwyd statws perfformiad gwyrdd i 73% (37 o 51) a statws coch i 28% (14). O'r 14 y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt, nodwyd effaith COVID-19 fel ffactor cyfrannol yn y llithriant a gofnodwyd ar gyfer 9 o'r camau gweithredu.

O'r 26 mesur a adroddwyd (a nodwyd yn 21 yn yr adroddiad), priodolwyd statws Gwyrdd i 14 a phriodolwyd statws Melyn i 3. MAC/021 (prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol), MAC/020 (prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol), CPM/068 (canran yr oedolion 60+ oed sydd â thocyn bws consesiynol), CPM/100 (canran goleuadau stryd y Cyngor sy'n LED), CPM/111 (canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd sy'n arwain at weithgarwch gorfodi) a CPM/116 (cilogramau o wastraff trefol y pen yn yr Awdurdod Lleol nad yw'n cael ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn), CPM/050 (cyfanswm nifer yr ymwelwyr â Bro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (fel y'u mesurir gan arolwg STEAM)), CPM/055 (cyfanswm nifer yr ymwelwyr sy'n aros i Fro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (fel y'u mesurir gan arolwg STEAM)), CPM/059 (canran yr ymwelwyr sy'n aros ym Mro Morgannwg at ddibenion twristiaeth sydd ag arhosiad SFR (aros gyda ffrindiau neu berthnasau (fel y'u mesurir gan arolwg STEAM))). Priodolwyd statws Coch i 6 o'r 9 mesur; roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at golli'r targed.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu barn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Holodd y Cynghorydd A.R. Robertson faint o wastraff mewn tunelli oedd yn cael ei ailgylchu. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod ffigurau gwastraff gweddilliol a ddarparwyd mewn cyfarfod diweddar gyda Chydbwyllgor Prosiect Gwyrdd yr aethpwyd iddo, wedi dangos bod bron 19,000 o dunelli wedi'u hanfon o Fro Morgannwg ar gyfer 2020/21. Roedd hyn yn cynrychioli dros 10% o holl dunelli'r prosiect ar gyfer y flwyddyn. Cytunodd y Pwyllgor i'r wybodaeth o'r cyfarfod gael ei rhannu trwy e-bost.

O ran yr orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai fod cynllunio wedi'i gytuno a bod disgwyl i'r contractwyr gyrraedd y safle yr wythnos nesaf i ddechrau adeiladu. Y disgwyl oedd y byddai'n cymryd 10 i 12 mis i gwblhau'r gwaith adeiladu.

Yna penderfynwyd

## ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

(4) Y dylid trosglwyddo diolch a gwerthfawrogiad y Craffu Amgylchedd ac Adfywio i staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad i gwrdd â heriau pandemig Coronavirus.

### Rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Trosglwyddo diolch y Pwyllgor Craffu am holl waith caled ac ymroddiad y staff yn ystod pandemig Coronavirus.

## 222 ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF OLRHAIN 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno gan y Cadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac i gadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22.

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi anfon sawl cais at Lywodraeth Cymru ynghylch statws yr Uned Biomas yn y Barri ac a ddylid bod wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y cais cynllunio cychwynnol.

O ran yr adroddiad Adran 19 ynghylch y digwyddiad llifogydd mawr yn ystod mis Rhagfyr 2020, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai fod yr adroddiad yn cael ei gwblhau ac y dylai fod yn barod i'w gyhoeddi yn ystod mis Awst.

Yna penderfynwyd

## ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A, B, C a D yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol ddiweddaraf y pwyllgor sydd wedi ei hatodi yn Atodiad E'r adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.